Environment Agency
Pension Fund

Gaeaf 2015

# Eich Pensiwn

Newyddion o Gronfa Bensiwn Asiantaeth yr Amgylchedd



## Cynnwys


Sut rydym yn buddsoddi 3

Y Newyddion pensiwn diweddaraf 4-5

Ewch yn ddigidol 6

Beth yw'r Adran 50:50? 7

Aelodau sy'n bensiynwyr 8

Aelodau gohiriedig 8




# Croeso gan y Cadeirydd

Fel Cadeirydd newydd Pwyllgor Pensiynau Asiantaeth yr Amgylchedd, mae'n bleser gennyf gyflwyno i chi ein cylchlythyr gaeaf sy'n amlygu pynciau pensiwn allweddol er gwybodaeth.

Dyma fy nghylchlythyr pensiwn cyntaf a manteisiaf ar y cyfle hwn i'mcyflwyno fy hun, ac i rannu peth o'm cefndir. Rwyf yn gyfrifydd cymwysedig gan y CIMA ac yn gyn-Reolwr Ariannol Grŵp United Utilities Group plc. Roeddwn yn gadeirydd pwyllgor archwilio Adran y Wladwriaeth am bum mlynedd ac yn 2011 deuthum yn aelod o Fwrdd Asiantaeth yr Amgylchedd, a deuthum yn gadeirydd yr Is-Grŵp Buddsoddi yn 2012.

Yn ystod y degawd diwethaf, rwyf wedi gweld y Gronfa'n tyfu i fod yn arweinydd byd-eang mewn buddsoddi cyfrifol, gan gyflawni enillion da a sicrhau bod ein ffyrdd o gyfathrebu'n defnyddio'r dechnoleg ddiweddaraf i gynyddu ein cyswllt â chi, ein haelodau. Mae fy nghyd-aelodau pwyllgor a bwrdd pensiwn wedi ymrwymo i fynd i'r afael â'r heriau a'r cyfleoedd economaidd rydym i gyd yn eu hwynebu. Rwyf yn hapus â'r cynnydd pellach a wnaethpwyd gennym eleni a rhannaf rai enghreifftiau isod.

Newidiodd y Gronfa ei phroffil o ecwitïau a reolir yn fyd-eang yn oddefol i gronfa newydd, ac fe'i mesurir yn erbyn Mynegai Byd Targed Carbon Isel yr MSCI. Mae'n parhau'r cam nesaf yn ein strategaeth i reoli a lleihau risg hinsawdd yn ein buddsoddiadau.

Rydym wedi cyhoeddi ein Polisi i Fynd i'r afael ag Effeithiau Newid yn yr Hinsawdd, gan ddangos i'n haelodau bod gennym gynllun credadwy i gyflwyno enillion ariannol hir dymor, cadarn, wrth i effeithiau newid yn yr hinsawdd ddigwydd.

Mae'r Llywodraeth wedi cyhoeddi ymgynghoriad ynghylch y diwygiadau arfaethedig i reoliadau Buddsoddi'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, a chyfuno cronfeydd. Rydym yn croesawu'r cyfle i ymateb i'r ymgynghoriad ac yn gweithio'n agos â chronfeydd pensiwn eraill ynghylch sut y gallwn gyflawni hyn yn y ffordd orau.

Cydnabuwyd ein gwaith trwy ennill sawl gwobr buddsoddi eleni, ac efallai'n fwyaf pwysig, gwobr Institutional Investor Europe (IIE) ar gyfer Llywodraethu Amgylcheddol a Chymdeithasol Gorau.

Mae buddsoddwyr sefydliadol eraill yn pleidleisio am y rhain ac mae'n fraint i ni gael ein cydnabod gan ein cymheiriaid.

Mae ein ffyrdd o gyfathrebu wedi derbyn adborth cadarnhaol iawn, gan arwain at yr EAPF yn derbyn cydnabyddiaeth gan y cylchgrawn Professional Pensions am y Ffyrdd Cyfathrebu Gorau ar gyfer y Sector Cyhoeddus 2015. Cydnabuwyd y tîm hefyd am ei ymgysylltiad ag aelodau a strategaeth ddigidol a gallwch ddarllen mwy am hyn ar dudalen 6.

Gobeithio y bydd y cylchlythyr hwn yn ddefnyddiol ac yn llawn gwybodaeth i chi. Rydym yn gwerthfawrogi eich adborth, felly cysylltwch â ni gydag unrhyw sylwadau neu awgrymiadau gan ddefnyddio'r manylion cyswllt ar y dudalen gefn.



Clive Elphick

Cadeirydd y Pwyllgor Pensiynau

# Sut rydym yn buddsoddi

## Trefnu buddsoddiad cyfrifol wrth wraidd yr hyn rydym yn ei wneud

Yn 2015, dathlodd y Gronfa ei 10fed phen-blwydd yn gweithredu strategaeth fuddsoddi gyfrifol.

Beth mae'n ei olygu i fod yn fuddsoddwr cyfrifol?

Yn syml, mae'n disgrifio'r ffordd rydym yn ymdrin â'n gwaith buddsoddi wrth:

- Ystyried ystod eang o faterion fel effeithiau amgylcheddol neu gymdeithasol a pha effaith ariannol y gallent ei chael yn y byr yn ogystal â'r hir dymor
- Ystyried gweithio gyda phobl eraill a dylanwadu arnynt
- Gweithredu fel perchnogion da'r cwmnïau, asedion a chronfeydd rydym yn buddsoddi ynddynt
- Gweithredu mewn ffordd agored ac eglur

## Stiwardiaeth

**Rydym nawr wedi cyhoeddi Pennod 2 o'r 10 pennod sy'n dathlu 10 mlynedd o fuddsoddi cyfrifol.**

Mae'r ail bennod hon yn arddangos pŵer ymgysylltu a phleidleisio. Mae'n canolbwyntio ar waith y Gronfa'n cydgysylltu'r gweithgaredd ymgysylltu a phleidleisio mewn cwmnïau gan arddangos ei bwysigrwydd i'r Gronfa a buddiannau aelodau ein Cronfa. Mae'r papur yn cynnwys cyfweliad rhwng Martin Parsons, (CBAA) a Colin Melvin o'n darparwr Hermes EOS.

### Buddsoddiad cynaliadwy

Yn 2015, cyrhaeddom ein targed o 25% o'n buddsoddiadau mewn technoleg lân a chyfleoedd cynaliadwy eraill - llawer mwy nag unrhyw gronfa bensiwn fyd-eang arall. Mae buddsoddiadau'n cynnwys:

- Cyfleoedd eiddo'n targedu effeithlonrwydd ynni, adfywio a chynaliadwyedd trefol
- Cyfalaf menter yn cyllido'r genhedlaeth nesaf o dechnolegau - fel cerbydau trydan a goleuadau LED
- Isadeiledd cynaliadwy hir dymor, fel ynni adnewyddadwy ac effeithlonrwydd ynni
- Cwmnïau rhestredig sy'n arddangos arfer orau mewn cynaliadwyedd, gwella effeithlonrwydd a lleihau effeithiau cymdeithasol ac amgylcheddol

## Polisi newid yn yr hinsawdd

Mae rheoli risg newid yn yr hinsawdd yn brif flaenoriaeth i ni. Rydym wedi bod yn rheoli risg newid yn yr hinsawdd yn y Gronfa ers 2001 pan ddaethom yn aelod cychwynnol o'r Grŵp Buddsoddwr Sefydliadol ynghylch Newid yn yr Hinsawdd (**www.iigcc.org**).

CBAA yw'r Gronfa gyntaf i gynnal ei hasedion yn unol â'r egwyddor a gytunwyd gan y CU o atal tymereddau byd-eang rhag codi mwy na 2°C. Byddwn yn integreiddio effeithiau newid yn yr hinsawdd i mewn i'n buddsoddiadau. Mae ein polisi'n gosod amcan eang o sicrhau yr alinir buddsoddiadau â chyfyngu ar newid yn yr hinsawdd i gynhesu o 2°C tra'n canolbwyntio ar fuddsoddiad carbon isel, datgarboneiddio ac ymgysylltu â diwydiant.

Mae'r polisi newydd hwn yn golygu y gostyngir buddsoddiad y Gronfa i lo o 90% yn ystod y pum mlynedd nesaf, a gostyngir ein buddsoddiad i olew a nwy oi hanner.

Mae'r targed hwn yn cyd-fynd â chynhyrchu enillion ariannol da, gan osgoi risg hir dymor a bydd yn cwrdd â'n cyfrifoldebau ymddiriedol. I gael mwy o wybodaeth, ewch i'n gwefan.

# Y newyddion pensiwn diweddaraf

## Mynegai Prisiau Defnyddwyr i fis Medi 2015 yw -0.1%

**Nid yw'n effeithio unrhyw bensiynau gohiriedig neu unrhyw bensiynau sy'n cael eu talu'n barod, ac ni fydd eich pensiwn yn gostwng.**

Mewn cyfnodau o chwyddiant negyddol, gellir gostwng eich pensiwn cyfartaledd gyrfa (y pensiwn rydych yn ei gasglu ar ôl Ebrill 1 2014). Credwn mai dim cynnydd yw'r mwyaf tebygol ond byddwn yn eich hysbysu os bydd hyn yn newid.

## Cronfa ddata Yswiriant Cenedlaethol

Mae ein Cronfa'n cymryd rhan mewn prosiect rhannu data gyda chronfeydd pensiwn Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol eraill yn Lloegr, Cymru a'r Alban er mwyn cydymffurfio â darpariaethau cyfreithiol a gynhwysir yn rheoliadau ein Cynllun. Mae hyn yn golygu os bydd aelod o'r Cynllun yn marw, bydd angen i'n Cronfa wybod os oedd gan yr unigolyn hefyd gyfnodau eraill o aelodaeth Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol mewn man arall yn y wlad fel y gellir talu'r buddion marwolaeth cywir i ddibynyddion yr aelod ymadawedig.

Crëwyd cronfa ddata cenedlaethol i alluogi cronfeydd i wirio os oes gan eu haelodau gofnodion pensiynau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol mewn cronfeydd pensiwn eraill. Cedwir y gronfa ddata gan Awdurdod Pensiynau De Swydd Efrog.

Rhennir rhan o'r gronfa ddata hwn o bryd i'w gilydd gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau fel rhan o'r gwasanaeth Dweud Wrthym Unwaith. Mae Dweud Wrthym Unwaith yn wasanaeth a gynigir bron ym mhob rhan o'r wlad pan fydd unigolyn yn cofrestru marwolaeth. Pan fydd y Gronfa'n ymuno â'r gwasanaeth hwn, bydd yr Adran Gwaith a Phensiynau'n sicrhau y'n hysbysir am y farwolaeth, fel y gellir prosesu cofnodion yr aelod yn effeithiol.

Os hoffech weld mwy o wybodaeth am y ffordd y rhennir y data hwn, yna gellir dod o hyd i'r hysbysiad preifatrwydd llawn ar y wefan **www.eapf.org.uk**

## Newidiadau i ostyngiad yn y dreth

**Mae'r newidiadau treth hyn yn annhebygol o effeithio ar y mwyafrif o aelodau, a byddwn yn cysylltu'n uniongyrchol ag unigolion sy'n debygol o fynd y tu hwnt i'r cyfyngiadau treth hyn.**

Ceir dau gyfyngiad ar y swm o ostyngiad yn y dreth y byddwch yn ei dderbyn ar eich cynilion pensiwn, lwfans blynyddol a lwfans gydol oes.

Mae'r lwfans blynyddol yn cyfyngu ar y swm o ostyngiad yn y dreth y gallwch ei dderbyn ar eich cynilion pensiwn bob blwyddyn. O Ebrill 6 2016, byddwn yn cyfrifo'r twf blynyddol yn eich pensiwn bob blwyddyn dreth yn hytrach na phob blwyddyn gynllun. Ar gyfer 2015/16, rhennir y gostyngiad hwn yn y dreth i mewn i ddau gyfnod lwfans blynyddol gwahanol. Mae hyn oherwydd cyflwyno'r lwfans blynyddol gohiriedig o Ebrill 2016, sy'n cyfyngu ar ostyngiad yn y dreth i unigolion gydag incymau 'addasedig' yn fwy na £150,000.

Mae incwm 'addasedig' yn cynnwys cyfraniadau pensiwn gennych chi yn ogystal â'ch cyflogwr. Gostyngir y gostyngiad yn y dreth o £1 am bob £2 y mae eich incwm 'addasedig' dros £150,000 hyd at £210,000.

Nid effeithir unrhyw un ag incwm o dan £110,000 (gan gynnwys incwm o gynilion a buddsoddiadau eraill) gan y lwfans blynyddol gohiriedig.

Mae'r lwfans gydol oes yn cyfyngu ar y swm o fuddion pensiwn y gellir eu casglu yn ystod eich oes heb godi treth arnoch, a gostyngir y lwfans o Ebrill 2016 i £1m. Mae moddau diogelu ar gael i unrhyw un sydd eisoes wedi mynd y tu hwnt i'r cyfyngiad erbyn Ebrill 5 2016. Mae cyfyngiadau lwfans gydol oes yn y dyfodol yn debygol o gynyddu'n flynyddol yn unol â'r Mynegai Prisiau Defnyddwyr o Ebrill 6 2018.

### Rydym wedi symud!

Os byddwch yn ysgrifennu atom, ein cyfeiriad newydd yw:

**11b Lingfield Point**
**Darlington**
**DL1 1AX**

Nid yw ein rhif ffôn wedi newid ac mae'n aros fel **0800 1216593**.

Nid oes angen i chi wneud unrhyw beth, ysgrifennwch atom i'r cyfeiriad hwn ac edrychwn ymlaen at dderbyn eich post.

## Datganiadau budd blynyddol

Anfonwyd datganiadau budd eleni at aelodau presennol yn ogystal â blaenorol y Gronfa. Mae eich datganiad yn cynnwys manylion y buddion pensiwn rydych wedi eu casglu trwy eich aelodaeth o Gronfa Bensiwn Asiantaeth yr Amgylchedd hyd at Fawrth 31 2015.

## Ailgofrestru i Gynllun Pensiwn Llywodraeth Leol

Cyflwynodd y Llywodraeth reolau cofrestru awtomatig yn 2012 i sicrhau bod pob cyflogwr yn cofrestru cyflogeion cymwys yn awtomatig i mewn i'w cynllun pensiwn. Pob tair blynedd, mae'n ofynnol i gyflogwyr ailgofrestru cyflogeion cymwys sydd wedi dewis peidio â pherthyn i'r cynllun am fwy na 12 mis.

Mae'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yn gofyn y cofrestrir pob cyflogai nad ydynt yn aelodau sy'n cyfrannu, ond yn gymwys i fod yn aelodau, ar y dyddiad ailgofrestru. Yn ogystal, rhaid ailgofrestru unrhyw aelodau o'r Adran 50:50 i mewn i'r prif gynllun.

Cyflwynodd Asiantaeth yr Amgylchedd gofrestru awtomatig ym mis Mawrth 2013 a'r dyddiad nesaf ar gyfer ail gofrestru yw Mawrth 1, 2016.

Bydd Shared Service Connected Limited yn cyflwyno cofrestru awtomatig o Fai 1 2016.

Bydd Cyfoeth Naturiol Cymru'n cyflwyno cofrestru awtomatig o Orffennaf 1 2017.

Byddwch yn derbyn llythyr i gadarnhau os bydd hyn yn eich effeithio ar yr opsiynau sydd gennych.

Gallwch ymuno â phrif gynllun y Gronfa neu Adran 50:50 unrhyw adeg wrth gwblhau'r ffurflenni ar ein gwefan **www.eapf.org.uk**

## Pensiwn newydd y Wladwriaeth o Ebrill 6 2016

Rydym wedi sôn mewn cylchlythyron blaenorol bod pensiwn y Wladwriaeth yn newid y flwyddyn nesaf, bydd unrhyw un a fydd yn ymddeol ar ôl y dyddiad hwn yn derbyn un pensiwn y Wladwriaeth yn lle Pensiwn Sylfaenol presennol y Wladwriaeth ac unrhyw drefniadau ategol blaenorol fel Ail Bensiwn y Wladwriaeth (S2P) a Chynllun Pensiwn y Wladwriaeth ar sail Enillion (SERPS).

Bydd angen 35 o flynyddoedd cymwys o gyfraniadau yswiriant cenedlaethol a dalwyd i fod yn gymwys ar gyfer uchafswm pensiwn newydd y Wladwriaeth na fydd yn llai na £155.65 yr wythnos. Fodd bynnag, os buoch yn aelod o gynllun contractio allan (fel yr un sydd gennym), yna gallech dderbyn llai na hyn. Y rheswm am hyn yw yn ystod eich aelodaeth o Gronfa Bensiwn Asiantaeth yr Amgylchedd ni thaloch gyfraniadau yswiriant cenedlaethol tuag at y trefniadau ategol. Yn lle hynny, mae Cronfa Bensiwn Asiantaeth yr Amgylchedd yn addo rhoi swm cyfatebol neu uwch o bensiwn na'r hyn y byddech wedi ei dderbyn gan y Wladwriaeth ac, yn gyfnewid, byddwch yn derbyn 1.4% o ad-daliad yswiriant cenedlaethol.

Pan fydd y trefniadau ategol yn dod i ben ym mis Ebrill 2016, ni fyddwch bellach yn derbyn ad-daliad yr yswiriant cenedlaethol a byddwch yn cychwyn casglu blynyddoedd cymwys o gyfraniadau yswiriant cenedlaethol a dalwyd tuag at bensiwn newydd y Wladwriaeth. Bydd gwerth unrhyw flynyddoedd cymwys a gasglwyd gennych yng Nghronfa Bensiwn Asiantaeth yr Amgylchedd yn cyfrif tuag at bensiwn newydd y Wladwriaeth, llai na gwerth pensiwn yr ad-daliad rydych wedi ei dderbyn yn barod.

Mae'r tabl isod yn ganllaw ynghylch sut y gall hyn effeithio arnoch pan fydd ad-daliad yr yswiriant cenedlaethol yn dod i ben.

| Enillion | Yswiriant cenedlaethol sy'n daladwy gan y cyflogai | Yswiriant cenedlaethol sy'n daladwy o Ebrill 6 2016 | Gwahaniaeth |
|---|---|---|---|
| **£15,000 y flwyddyn (£1,250 y mis)** | £58.66 y mis | £69.36 y mis | £10.70 y mis |
| **£27,000 y flwyddyn (£2,250 y mis)** | £164.66 y mis | £189.36 y mis | £24.70 y mis |
| **£45,000 y flwyddyn (£3,750 y mis)** | £307.65 y mis | £347.56 y mis | £39.91 y mis |

Y gostyngiad uchafswm yw £39.91 y mis ar gyfer enillion dros £45,000 y flwyddyn.

# Ewch yn ddigidol

## Mynediad i'ch pensiwn unrhyw le!

Gyda 66% o bobl nawr yn berchen ar ffôn glyfar, rydym eisiau eich helpu i reoli eich cynilion ymddeol. Gallwch nawr wirio gwerth eich buddion pensiwn yn ddiogel gan ddefnyddio eich llechen neu ffôn glyfar, naill ai gartref neu unrhyw le.

Ers lansio ein gwefan bensiwn ym mis Rhagfyr y llynedd, mae cofrestriadau ar-lein wedi cynyddu i 20% o'r aelodau a hoffem bod mwy ohonoch nawr yn ei brofi.

Ychydig o funudau'n unig sydd eu hangen i gofrestru - yr unig bethau sydd eu hangen arnoch yw eich rhif Yswiriant Cenedlaethol a chyfeiriad e-bost dilys.

Byddwn yn anfon PIN atoch i helpu i gadw eich manylion yn ddiogel.

Yna, wrth glicio botwm gallwch:

- Edrych ar eich datganiad budd ar-lein
- Defnyddio ein teclyn modelu i amcangyfrif pryd y gallwch ymddeol a faint y gallech ei dderbyn
- Dewis y modd cyfathrebu sy'n well gennych - ewch yn ddigidol!
- Gall pensiynwyr edrych ar eu slip tâl a P60
- Cysylltu â Capita, ein gweinyddwr yn uniongyrchol

Os byddwch yn anghofio eich manylion mynediad (enw mewngofnodi, cyfrinair neu PIN), gallwch fynd i'r wefan i ofyn am nodyn atgoffa.

## Awgrym gwych

Gallwch ddefnyddio eich cyfeiriad e-bost gwaith i gofrestru am Gronfa Bensiwn Asiantaeth yr Amgylchedd Ar-lein, ond mae defnyddio cyfeiriad e-bost personol yn golygu y gallwch gael mynediad i'ch gwybodaeth 24 awr y diwrnod. Mae dros 61% o bobl yn defnyddio eu ffonau symudol i fynd ar y we, a nawr gallwch ddefnyddio eich un chi i gael mynediad i Gronfa Bensiwn Asiantaeth yr Amgylchedd Ar-lein hefyd.



# Beth yw'r Adran 50:50?

## Mae'r Adran 50:50 yn rhoi'r opsiwn i dalu llai o gyfraniadau yn gyfnewid am lai o bensiwn.



### Astudiaeth achos

Mae Erin wedi gadael y brifysgol ac wedi cychwyn ei swydd gyntaf gydag Asiantaeth yr Amgylchedd.

Mae'n ymwybodol bod ei chyflogwr yn cynnig pensiwn arbennig ac yn deall ei bod yn bwysig cynilo ar gyfer ei hymddeoliad. Nid yw'n awyddus i ymuno â'r cynllun pensiwn gan ei bod yn gobeithio casglu cynilion fel blaendal ar gyfer ei chartref cyntaf ac mae ganddi hefyd ddyledion myfyrwraig.

Mae Erin nawr yn gallu ymuno â'r Adran 50:50 sy'n caniatáu iddi dalu hanner ei chyfraniad arferol am hanner y swm o bensiwn; fodd bynnag, bydd yn cadw'r buddion eraill yn y cynllun yn union yn yr un modd ag y byddai petai'n talu cyfraniadau llawn.

Mae ganddi yswiriant iechyd os bydd yn dioddef salwch difrifol, a diogelir 3 gwaith ei thâl pensiynadwy rhagdybiedig fel yswiriant bywyd, yn ogystal â phensiwn ar gyfer unrhyw ddibynyddion petai'n marw.

Pe byddai Erin yn anghofio ailymuno â phrif adran y Cynllun, caiff ei hailgofrestru'n awtomatig ar ddyddiad ailgofrestru nesaf ei chyflogwr.

Gobeithio erbyn hynny bydd yn teimlo'n fwy sicr yn ariannol, neu gall wneud dewis arall i ailymuno a'r Adran 50:50.

## Enwebu buddiolwyr

A oeddech yn gwybod bod gennych yswiriant bywyd 3 gwaith eich tâl pensiynadwy rhagdybiedig?

Mae'n bwysig eich bod yn enwebu'r rhai yr hoffech iddynt dderbyn y taliad yswiriant bywyd hwn. Gallwch enwebu mwy nag un unigolyn, neu sefydliad, fel elusen. Pwyllgor Pensiynau'r Gronfa fydd yn gwneud y penderfyniad terfynol ynghylch pwy fydd yn derbyn unrhyw daliadau, ond bydd yn ceisio parchu eich dymuniadau.

Cwblhewch ffurflen Mynegi Dymuniad i'n hysbysu am eich enwebiad(au) ac i sicrhau y telir yr arian yn gyflym heb fod angen aros am brofiant. Gallwch lawrlwytho ffurflen o'n gwefan, **www.eapf.org.uk/forms**, a chofiwch ddiweddaru eich enwebiadau.

# Aelodau sy'n bensiynwyr ac aelodau gohiriedig

## Eich pensiwn Cronfa Bensiwn Asiantaeth yr Amgylchedd

Peidiwch ag anghofio bod Cronfa Bensiwn Asiantaeth yr Amgylchedd yn cynnig buddion hael i'ch dibynyddion ar ôl i chi farw. Ni chodir treth etifeddiant ar fuddion cyfandaliad, gan eu bod yn ôl disgresiwn, ac mae pensiynau hefyd yn daladwy i'ch partner a phlant sy'n ddibynyddion.

Gallwch gael mwy o wybodaeth am y buddion sydd ar gael i chi yn Adran y Pensiynwr ein gwefan, **www.eapf.org.uk** a gallwch gael ffurflen i enwebu'r rhai yr hoffech iddynt dderbyn unrhyw daliadau cyfandaliad o **www.eapf.org.uk/forms**.

## Dweud Wrthym Unwaith

Mae Dweud Wrthym Unwaith yn wasanaeth sy'n caniatáu i chi hysbysu'r mwyafrif o sefydliadau'r llywodraeth am farwolaeth. Unwaith yn unig y mae'n rhaid i chi hysbysu'r gwasanaeth Dweud Wrthym Unwaith a byddant yn trosglwyddo'r wybodaeth i bob adran berthnasol y llywodraeth (gan gynnwys Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi, Yr Adran Gwaith a Phensiynau, y Swyddfa Basbort a'r DVLA). Bydd eich cofrestrydd lleol yn rhoi rhif cyfeirnod unigryw i gael mynediad i wasanaeth Dweud Wrthym Unwaith ar-lein neu wrth ffonio.

Mae Cynlluniau Pensiwn y Sector Cyhoeddus yn gweithio gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau i gynnig y gwasanaeth hwn i'n haelodau a daw hyn i rym y gaeaf hwn. Byddwn yn hysbysu aelodau ar ein gwefan pan fydd y gwasanaeth hwn yn fyw.

## Trosglwyddo eich buddion pensiwn

Mae'n bosibl y gall eich dibynyddion etifeddu eich pensiynau gweithle, personol a'r Wladwriaeth ar ôl i chi farw.

**Pensiwn y wladwriaeth**

Mae'n bosibl y bydd eich priod neu bartner sifil sy'n dal yn fyw â hawl i ran o'ch Pensiwn Sylfaenol y Wladwriaeth os nad ydynt wedi casglu digon o gyfraniadau Yswiriant Cenedlaethol a'ch bod chi wedi gwneud hynny. Hefyd, os ydych wedi cyfrannu at Ail Bensiwn y Wladwriaeth, efallai y gall eich priod neu bartner sifil etifeddu ei hanner, a mwy o bosibl os cawsoch eich geni cyn 1945.

**Pensiwn personol**

Gallwch nawr drosglwyddo eich cynilion pensiwn personol, heb dalu treth os ydych yn marw cyn prynu blwydd-dâl ganddynt a chyn eich bod yn 75 oed. Os byddwch yn marw ar ôl eich pen-blwydd yn 75 oed, bydd eich buddiolwr yn talu 45% ar unrhyw gyfandaliadau sy'n daladwy, a threth incwm ar unrhyw incwm a dynnwyd o'ch cronfa. Nid oes angen talu treth etifeddiant ar y mwyafrif o daliadau pensiwn personol os oeddent 'yn ôl disgresiwn', sy'n golygu bod gan ddarparwr y pensiwn y gair olaf ynghylch pwy sy'n derbyn y budd.

## Aelodau gohiriedig

### Datganiadau budd blynyddol

Anfonwyd datganiadau budd eleni at aelodau blaenorol y Gronfa o Awst 31, a sylwom nad yw rhai datganiadau o bosibl yn dangos dangosyddion cywir ar gyfer yr aelodau hynny sydd wedi gwneud enwebiadau am fuddion marwolaeth. Gwall oedd hyn ar ddatganiad eleni a hoffem sicrhau aelodau y dangosir hyn yn gywir ar ddatganiad y flwyddyn nesaf.

Os oes gennych unrhyw bryderon, cysylltwch â Capita.

## Manylion cyswllt

Os oes gennych unrhyw gwestiynau ynghylch eich hawl i bensiwn, gallwch gysylltu â'n gweinyddwr pensiwn, Capita, wrth:

Ddefnyddio'r botwm '**Cysylltu â Chronfa Bensiwn Asiantaeth yr Amgylchedd**' ar y wefan **www.eapf.org.uk**

E-bostio **info@eapf.org.uk**

Ffonio **0800 1216593**

Anfon eich ymholiad i
**Capita, 11b Lingfield Point, Darlington, DL1 1AX**